GARDDIO ER BUDD BYWYD GWYLLT SIR GAERFYRDDIN

Cynghorion er mwyn gwella eich gardd ar gyfer bioamrywiaeth

Diben y ddalen hon yw bod yn ganllaw sylfaenol i berchenogion tai i'w galluogi i wella gerddi preifat yn gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Pam garddio er budd bywyd gwyllt?
Mae gerddi yn gallu cynnal llawer o fywyd gwyllt. Mae modd i ardd fod yn noddfa i amrywiaeth rhyfeddol o adar a thrychfilod. Mae'n bosibl bellach fod gerddi trefol yn gadarnleoedd arwyddocaol i famaliaid megis draenogod ac i amffibiaid.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gerddi a rhandiroedd wedi dod yn gynefinoedd mwyfwy pwysig i fywyd gwyllt, gan gynnwys nifer o rywogaethau sydd bellach yn brin yng nghefn gwlad. Yn ogystal mae gerddi a rhandiroedd yn gallu bod yn llwybrau cyswllt pwysig i fywyd gwyllt. Yn ein trefi, mae cyfran helaeth o'r cynefin sydd ar gael ar gyfer bywyd gwyllt ar gael ar ffurf gerddi, sef 'ysgyfaint gwyrdd' ein hamgylchedd trefol.

Fodd bynnag mae rhai arferion garddio yn gallu bod yn andwyol i fywyd gwyllt. Mae gorddefnyddio plaladdwyr a gwrteithiau, gordacluso gerddi, draenio pyllau, a defnyddio mawn, i gyd yn gallu bod yn arferion niweidiol. Fodd bynnag, drwy gymryd rhai camau syml gallwn ni i gyd arddio mewn modd sy'n hybu bywyd gwyllt.

Cynghorion ynghylch gwella eich gardd ar gyfer bywyd gwyllt!

- Garddiwch mewn modd organig! Defnyddiwch gompost a thail sydd wedi pydru yn hytrach na gwrteithiau cemegol. Gwnewch eich compost eich hunan, rhowch gynnig ar blannu planhigion sy'n ategu ei gilydd er mwyn osgoi problemau â phlâu, a chwynnwch lwybrau a phatios â llaw yn hytrach na defnyddio chwynladdwyr. Anogwch ddulliau naturiol o reoli plâu, er enghraifft brogaod, llyffantod a draenogod, sydd oll yn bwyta trychfilod trafferthus yn eich gardd.

- Plannwch goed a llwyni cynhenid sydd yn fwy atyniadol i wenyn ac ieir bach yr haf na rhywogaethau estron Mae coed addas yn cynnwys yr aethnen, coeden geirios yr adar, yr onnen, y dderwen, y gerdinen wen, coeden afalau surion, y fasarnen fach, yr helygen ddeilgron, y gelynnen, y gollen, y gerdinen, y bisgwydden dail bach, a'r fedwen arian. Mae'r llwyni cynhenid addas yn cynnwys yr ysgawen, y rhafnwydden, y ddraenen ddu, y gwyrwialen, y rhosyn gwyllt, gwifwrnwydden y gors, y ddraenen wen, a'r biswydden.

- Plannwch berth gynhenid ar hyd terfynau eich eiddo, gan ddarparu cysgod, bwyd a man addas i adar nythu. Mae'r dewisiadau cynhenid da yn cynnwys y ddraenen ddu, y ddraenen wen, y rhosyn gwyllt, y fasarnen fach, y gollen, a'r gelynnen. Hefyd gofalwch nad ydych yn tocio unrhyw berthi a choed yn ystod y tymor nythu (Mawrth – Medi). Mae ar y rhan fwyaf o berthi cynhenid angen cael eu tocio bob 2 flynedd yn unig. Ceisiwch bob amser adael rhai darnau o berthi heb eu tocio, fel bod aeron ar gael i adar dros y gaeaf.

- Crëwch bwll gardd neu lecyn llaith ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd pwll yn denu brogaod, madfallod dŵr, a gwesynnod, cyhyd â bod pysgod addurniadol heb eu rhoi yn y pwll. Ni ddylai'r pwll fod yng nghysgod coed, a gorau oll os yw yn llygad yr haul. Dylai fod digon o ymylon bas yn eich pwll, a dylai fod o leiaf 1 metr o ddyfnder mewn mannau er mwyn atal y pwll cyfan rhag rhewi'n gorn yn y gaeaf. Bydd gwahanol fathau o fywyd gwyllt yn cael eu denu yn ôl maint y pwll, ond yn gyffredinol gorau po fwyaf ydyw. Bydd gwesynnod yn magu mewn pyllau sydd cyn lleied â 4 metr^2, ond mae'n well gan frogaod a madfallod-dŵr cribog byllau mwy o faint (15 metr^2 neu fwy). Os nad oes gennych le ar gyfer pwll, gofalwch eich bod yn darparu ffynhonnell dŵr yfed i adar ac anifeiliaid eraill.

- Trowch eich gardd yn fôr o liw drwy greu dôl blodau gwyllt. Mae'n ddigon rhwydd ichi droi lawnt fechan neu ran ohoni yn ddôl blodau gwyllt ar raddfa fechan, a hynny drwy roi'r gorau i dorri'r gwair a thrwy

beidio â chwistrellu â chwynladdwyr. Yna gallwch hau hadau blodau gwyllt neu blannu planhigion blodau gwyllt yn eich dôl. Yn gyffredinol bydd briallu Mair, llygad llo mawr, pig garan y weirglodd, blodau menyn, a'r feddyges las yn ffynnu mewn dôl o'r fath. Dylid lladd dolydd ar ôl i'r blodau hadu. Yna bydd angen cywain yr holl dyfiant oddi yno, er mwyn atal maetholion rhag crynhoi yn y pridd a'i gyfoethogi.

- Crëwch forderi ar gyfer ieir bach yr haf drwy dyfu blodau sy'n gyforiog o neithdar megis y gynffon las, clafrllys, a'r rhewlys. Plannwch y rhain mewn man cysgodol a heulog. Hefyd plannwch hopys i ddenu'r fantell garpiog, meri a mari i ddenu'r gwyn mawr, a rhafnwydd i ddenu melyn y rhafnwydd, a gofalwch eich bod yn cadw ambell glwt o ddynent ar gyfer y trilliw bach, y fantell goch, a'r fantell paun.

- Gosodwch flychau ar gyfer adar ac ystlumod. Peidiwch â gosod y rhain mewn mannau lle gallai adar neu anifeiliaid ysglyfaethus eu cyrraedd, er enghraifft o ganghennau gerllaw, nac ychwaith yn llygad yr haul.

- Ar ôl dechrau bwydo adar, cofiwch ddal ati i'w bwydo drwy gydol y flwyddyn gan y byddant yn dibynnu ar eich ffynhonnell chi. Gallwch roi cynrhon y blawd (sydd ar werth mewn siopau anifeiliaid anwes), hadau adar gwyllt i linosod, ffrwythau i fronfreithod, cnau i ditwod, a braster i gnocellod.

- Peidiwch â bod yn rhy daclus! Gadewch bentyrrau o goed, dail, rwbel, neu gerrig yma ac acw yn yr ardd, gan fod y rhain yn noddfa ddelfrydol i famaliaid bychain, yn enwedig draenogod, ac yn fân gynefinoedd i lawer o anifeiliaid a thrychfilod eraill. Os ydych yn bwriadu cynnau tân yn yr ardd, bwriwch ati yn gyntaf i archwilio'r pethau sydd i'w llosgi rhag ofn fod draenog yn gaeafgysgu yno.

- Gwnewch eich gwrtaith naturiol eich hun! Ailgylchwch wastraff gardd a chrafion llysiau o'r gegin mewn blwch neu fin compostio - gallwch brynu un o'r rhain neu wneud un eich hunan.

- Defnyddiwch gompost heb fawn megis sglodion rhisgl, deilbridd, neu 'coir', a helpu i warchod ein mawnogydd. Mae mawnogydd yn fannau arbennig i fywyd gwyllt, ond mae bron holl fawnogydd Prydain wedi eu difrodi a hynny'n rhannol oherwydd y galw gan arddwyr am fawn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y gwefannau canlynol:

- www.gardenorganic.org.uk
- www.butterfly-conservation.org/downloads/48/gardening.html;
- www.devonwildlifetrust.org/files/uploaded/download.php?filename=Garden%20hedgerows.pdf
- www.pondconservation.org.uk
- www.floralocale.org
- www.bct.org.uk
- www.rspb.org.uk
- www.wildaboutgardens.org

EWCH I www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk AC YMRWYMWCH I HYBU BYWYD GWYLLT YN EICH GARDD!!

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales